

**E-lawlyfr 2**

**CYFLWYNIAD I SYNIADAU GWLEIDYDDOL**

Uned 3: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

CYSYNIADAU A DAMCANIAETHAU GWLEIDYDDOL

**Adnodd 3**

*Ceidwadaeth:  
Nodweddion  
Allweddol*

**Cyflwyniad  
a Gwybodaeth Graidd**

## CYFLWYNIAD

Cynhyrchwyd yr e-lawlyfr hwn er mwyn cynorthwyo disgyblion ac athrawon sy'n astudio'r cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth a hefyd i ddarparu gwybodaeth gychwynnol ar gyfer myfyrwyr israddedig. Mae'r cynnwys felly wedi'i lunio i gefnogi manyleb Safon UG ac Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth CBAC. Er bod CBAC wedi rhoi cyngor ar y deunyddiau hyn, y cyhoeddwr sy'n llwyr gyfrifol am y cynnwys.

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth sydd wedi cynhyrchu'r deunydd ac mae rhai cyfranwyr allanol wedi cyfrannu at rai adnoddau unigol. Ariannwyd y prosiect gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae'r e-lawlyfr yn ymateb i'r bwlch mewn deunydd astudio cyfrwng Cymraeg ym maes gwleidyddiaeth. Nid cynhyrchu gwerslyfr swmpus oedd y bwriad, ond yn hytrach ddatblygu adnoddau sy'n ymateb i'r angen am wybodaeth graidd, am ymarferion ar gyfer disgyblion a chanllawiau i athrawon.

Mae E-lawlyfr 2 yn cynnwys 8 adnodd astudio unigol sy'n cydfynd ag agweddau ar fanyleb Uned 3 y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Cysyniadau a Damcaniaethau Gwleidyddol.' Mae tair elfen i bob adnodd:

### **: Gwybodaeth Graidd**

### **: Llawlyfr Gwaith i'r Disgyblion**

### **: Canllaw i Athrawon**

Amlinellir cynnwys E-lawlyfr 2 ar y dudalen nesaf, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar fanyleb CBAC sy'n cael sylw yn yr 8 adnodd gwahanol.

Cyhoeddwyd yr e-lawlyfr dan drwydded Creative Commons BY-SA 4.0, sy'n eich caniatáu i'w ail-ddefnyddio a'i newid mewn unrhyw fodd, cyhyd a'ch bod yn rhoi cydnabyddiaeth briodol ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Mae testun llawn y drwydded ar gael yma: <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/>

TEITL YR UNED	MANYLION Y FANYLEB SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR UNED
Adnodd 1: Rhyddfrydiaeth: nodweddion allweddol	3.1.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol
Adnodd 2: Rhyddfrydiaeth: ffrydiau amrywiol	3.1.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol
<b>Adnodd 3; Ceidwadaeth: nodweddion allweddol</b>	<b>3.2.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol</b>
Adnodd 4: Ceidwadaeth: ffrydiau amrywiol	3.2.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol
Adnodd 5: Sosialaeth: nodweddion allweddol	3.3.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol
Adnodd 6: Sosialaeth: ffrydiau amrywiol	3.3.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol
Adnodd 7: Cenedlaetholdeb: nodweddion allweddol	3.4.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol
Adnodd 8: Cenedlaetholdeb: ffrydiau amrywiol	3.4.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol

**Awdur yr adnodd hwn:**

Dr. Huw Lewis

## GWYBODAETH GRAIDD

### Cyflwyno Ceidwadaeth

Mae'r termau 'ceidwadol' neu 'geidwadaeth' yn rhai a ddefnyddir fel rhan o sgysiau bob dydd mewn nifer o gyd-destunau gwahanol. Er enghraifft, fe'u defnyddir i ddisgrifio ymddygiad cymedrol a phwyllog, ffordd o fyw gonfensiynol a chydymffurfiol sy'n rhoi pwyslais ar lynu at arferion penodol, neu amharodrwydd i gofleidio newid o unrhyw fath. Wrth gwrs, gellid dadlau bod tueddiadau ceidwadol o'r math hwn mor hen â'r hil ddynol – byth ers i rywun geisio newid rhywbeth, mae eraill wedi mynegi gwrthwynebiad. Er hyn, y consensws ymhlith y mwyafrif o ysgolheigion yw mai dim ond yn ystod degawdau cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg y daeth Ceidwadaeth i gael ei harddel fel ideoleg wleidyddol benodol, gan ddynodi ymlyniad at gorff cydlynol o syniadau ynglŷn â sut y dylid trefnu cymdeithas.

Y cyd-destun ar gyfer datblygiad Ceidwadaeth ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd y gyfres o newidiadau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd pellgyrhaeddol a oedd yn sgubo ar draws gorllewin Ewrop ar y pryd. Un digwyddiad mawr y mae haneswyr yn tueddu i gyfeirio ato fel symbol amlwg o'r newid hwn – y symud i'r hyn a ddisgrifir fel y cyfnod modern – yw Chwyldro Ffrainc ym 1789. Roedd hwn yn ddigwyddiad gwleidyddol arbennig o arwyddocaol. Yn ystod y Chwyldro gwelwyd yr hen drefn frenhinol absoliwt yn cael ei dymchwel a gweriniaeth newydd yn cael ei sefydlu ar sail egwyddorion blaengar, megis rhyddid, cydraddoldeb a brawdoliaeth.

I rai o feddylwyr gwleidyddol y cyfnod, roedd cyflymder a dwyster y newidadau a ddeilliodd o'r Chwyldro yn Ffrainc yn destun pryder difrifol. Er enghraifft, yn ei gyfrol enwog *Reflections on the Revolution in France* ceisiodd Edmund Burke (1729-1797) amlinellu athrawiaeth gymdeithasol a gwleidyddol amgen a oedd yn pwysleisio themâu megis traddodiad, pwyll, graddoliaeth, ynghyd â pharch at awdurdod. Erbyn heddiw caiff cyfrol Burke ei thrin fel y datganiad cyflawn cyntaf o hanfodion Ceidwadaeth, ac yn sgil hynny meddylir yn aml am yr ideoleg fel un a ddatblygodd yn wreiddiol fel ymateb i Chwyldro Ffrainc ym 1789.

### Nodweddion Allweddol Ceidwadaeth

Wrth gwrs ers eu dyddiau cynnar ychydig dros ddwy ganrif yn ôl mae syniadau ceidwadol wedi esblygu cryn dipyn, ac fel y dangosir yn Adnodd 4 gwelwyd ystod o ffrydiau ceidwadol gwahanol yn datblygu dros y blynyddoedd. Eto i gyd, gellir rhestru cyfres o elfennau pwysig sy'n tueddu i gael eu hystyried fel rhai sy'n nodweddu'r byd-olwg Ceidwadol; elfennau sy'n caniatáu i ni wahaniaethu rhwng Ceidwadaeth ac ideolegau gwleidyddol eraill, yn arbennig Rhyddfrydiaeth neu Sosialaeth.

### Traddodiad

Ers cyfnod Edmund Burke mae Ceidwadwyr wedi dadlau'n gyson y dylid gochel rhag cyflwyno diwygiadau sy'n debygol o drawsnewid agweddau ar drefniadau cymdeithas, yn enwedig os oes bwriad i wneud hynny mewn modd sydyn, chwyldroadol. Deillia hyn o'r ffaith fod Ceidwadwyr o'r farn bod angen parchu'r hyn sy'n draddodiadol – dylid rhoi bri ar hen arferion a sefydliadau sydd wedi llwyddo i oroesi dros gyfnod hir. Fel y datganodd Edmund Burke mewn dyfyniad enwog:

*'It is with infinite caution that any man ought to venture upon pulling down an edifice which has answered in any tolerable degree for ages the common purposes of society'*

Yn nhyb Ceidwadwyr mae gwerth cynhenid i arferion neu sefydliadau hanesyddol cymdeithas. I ddechrau, mae'r ffaith syml bod rhai o'n traddodiadau wedi llwyddo i oroesi dros gyfnodau o genedlaethau yn brawf clir eu bod yn 'gweithio' ac yn medru cyflawni swyddogaethau pwysig o fewn

cymdeithas. Yn ail, yn sgil eu hirhoedledd byddant wedi dod i ymgorffori doethineb a gwybodaeth bwysig all fod o ddefnydd i bobl yn ystod y cyfnod presennol, neu rywbryd yn y dyfodol. Yn drydydd, mae bodolaeth cyfres o arferion neu sefydliadau traddodiadol yn medru cyfrannu at hybu ymdeimlad o berthyn a sefydlogrwydd ymhlith aelodau cymdeithas ac yn atgyfnerthu'r syniad bod cysylltiad cryf rhyngddynt â'r cenedlaethau a ddaeth o'u blaen. Am enghraifft drawiadol o'r math yma o ddadleuon yn cael eu defnyddio ystyrier y modd y mae Ceidwadwyr yn y Deyrnas Unedig wedi dadlau o blaid parhad y frenhiniaeth. Mae'r dadleuon hyn yn aml yn cyffwrdd ar ffactorau megis oed, profiad, gwybodaeth, sefydlogrwydd ac arwyddocâd symbolaidd.

## Pragmatiaeth

At ei gilydd mae Ceidwadwyr wedi mynegi amheuan mawr ynglŷn â'r syniad o resymoliaeth. Iddynt hwy, ffwlbrï yw'r awgrym y gall bodau dynol obeithio datblygu dealltwriaeth drylwyr o'r byd trwy fyfyrïo, astudio a defnyddio eu gallu i resymu. O ganlyniad, mae Ceidwadwyr wedi ymwrthod â safbwyntiau gwleidyddol sy'n awgrymu y dylid dyrchafu corff o egwyddorion haniaethol, megis rhyddid, cydraddoldeb neu oddefgarwch, fel canllawiau i'n harwain wrth ymhél â gwleidyddiaeth ac wrth benderfynu sut y dylid trefnu cymdeithas. Dadleuir bod y byd yn lle llawer rhy gymhleth ar gyfer hyn. Yn wir, llawer gwell yn nhyb y Ceidwadwr yw rhoi ffydd yn ein profiadau ymarferol, gan ymddwyn mewn modd pragmataidd. Golyga hyn y dylai penderfyniadau gwleidyddol gael eu seilio ar ystyriaeth ofalus o'r hyn sy'n ymddangos yn briodol ar y pryd, yn hytrach nag ar ragdybiaethau egwyddorol. Mewn geiriau eraill dylid ffafrio beth bynnag sy'n debygol o 'weithio', beth bynnag fo hynny. Mae'r ffydd yma mewn pragmatiaeth wedi peri i rai hawlio mai nid ideoleg wleidyddol mo Ceidwadaeth mewn gwirionedd, ond yn hytrach 'ffordd o feddwl' neu 'ffordd o fyw'.

## Amherffeithrwydd Dynol

Mae Ceidwadwyr yn arddel dehongliad negyddol iawn o natur bodau dynol. Yn wahanol i Ryddfrydwyr neu Sosialwyr, nid ydynt yn derbyn ein bod oll, yn ein hanfod, yn greaduriaid 'da'. Yn hytrach, creaduriaid amherffaith a sathredig sy'n meddu ar ystod o wendidau cynhenid ydym.

I ddechrau, hawlir fod bodau dynol yn greaduriaid ansicr sydd angen teimlo'n ddiogel ac sy'n chwennych yr hyn sy'n gyfarwydd. Mae hyn wedi arwain Ceidwadwyr i fynnu bod medru byw mewn cymunedau trefnus a sefydlog, ac sy'n meddu ar strwythurau awdurdod clir, yn hanfodol i les pob unigolyn. Mynnir bod bodau dynol hefyd yn greaduriaid hunanol a barus a fydd yn rhoi eu lles eu hunain uwchlaw eraill. Mae cred o'r fath wedi peri i nifer o Geidwadwyr wrthod yr awgrym bod trosedd ac anhrefn cymdeithasol yn bethau sy'n medru deillio o amgylchiadau cymdeithasol anffodus, megis tlodi neu anghydraddoldeb. Yn hytrach honnir eu bod yn bethau sy'n deillio o wendid moesol sylfaenol ar ran yr unigolyn. Dyma reswm pellach felly pam mae Ceidwadwyr yn tueddu i roi pwyslais ar yr angen am drefn ac am lywodraeth sy'n gweinyddu system gyfiawnder lem er mwyn cynnal y drefn honno.

## Cymdeithas Organig

Er bod Ceidwadwyr yn barod i dderbyn bod pob unigolyn yn greadur unigryw, maent hefyd gochel rhag meddwl am yr unigolyn fel creadur sy'n medru bodoli ar wahân i gymdeithas. Yn hytrach, mae pob unigolyn wedi'i wreiddio o fewn cymdeithas benodol ac fe fydd y strwythur ehangach hwn yn cyfrannu at ein cynnal, at siapio ein cymeriadau, ac at feithrin ymdeimlad o berthyn.

Ymhellach, mae'r elfennau gwahanol sy'n cynnal ein strwythur cymdeithasol yn rhai 'organig' – elfennau 'byw' sydd wedi esblygu'n naturiol ac sydd nawr yn gweithio gyda'i gilydd yn union fel y gwna'r galon, yr ysgyfaint, yr afu a'r ymennydd yn y corff dynnol. Yn achos y corff, mae angen i bob un o'r organau hyn weithio mewn cytgorod neu bydd y cyfan yn methu. Yn nhyb nifer o Geidwadwyr,

mae'r un peth yn wir wrth feddwl am gymdeithas. Tybir bod elfennau allweddol megis y teulu y gymuned leol, yr eglwys ac ystod o sefydliadau traddodiadol eraill yn gweithredu fel organau 'byw' sy'n cynnal bywyd y gymdeithas ac yn sicrhau ei bod yn rhedeg yn esmwyth o ddydd i ddydd.

O ganlyniad, bu tuedd ymhlith Ceidwadwyr i wrthwynebu datblygiadau sy'n peri newid i natur neu swyddogaeth rhai o'n sefydliadau cymdeithasol traddodiadol. Er enghraifft, yn achos y teulu mynegwyd pryder ynglŷn â datblygiadau megis y newid ym mhatrymau gwaith rhieni, y newid mewn arferion magu plant, ac yn fwyaf arwyddocaol, y newid yn ein dehongliadau o beth yw ffurf yr uned deuluol a phwy all fod yn rhieni. Yn nhyb y Ceidwadwyr gallai camau o'r fath beryglu'r ffabrig bregus sy'n cynnal ein cymdeithas organig.

## **Anghydraddoldeb Naturiol a Hierarchaeth**

Yn draddodiadol mae Ceidwadwyr wedi dadlau bod elfen o anghydraddoldeb yn anochel o fewn unrhyw gymdeithas. O ganlyniad, mynnir mai ofer yw gweithio i geisio sicrhau cydraddoldeb cymdeithasol, er enghraifft o ran statws, cyfoeth neu rym. Fe welir felly fod elfen o orgyffwrdd rhwng Ceidwadaeth a Rhyddfrydiaeth. Fodd bynnag, tra bo Rhyddfrydwyr yn trin bodolaeth anghydraddoldeb fel cyfaddawd sy'n rhaid ei dderbyn er mwyn caniatáu ar gyfer amrywiaethau o ran chwaeth neu allu ymhlith gwahanol unigolion, tuedda Ceidwadwyr i'w ddehongli fel rhywbeth dyfnach sy'n allweddol i weithrediad cymdeithas – rhywbeth y dylid ei ddehongli mewn termau naturiol a chadarnhaol.

Mae'r arfer o drin anghydraddoldeb cymdeithasol fel nodwedd naturiol a chadarnhaol yn deillio o'r ddelwedd organig sy'n rhan o'r byd-olwg Ceidwadol. Yn yr un modd ag y mae organau gwahanol yn cyflawni swyddogaethau penodol o fewn y corff dynol mae grwpiau a dosbarthiadau gwahanol yn ysgwyddo cyfrifoldebau penodol o fewn cymdeithas. Mae hyn yn arwain at ddehongliad sy'n tybio bod elfen o hierarchaeth yn angenrheidiol er mwyn i gymdeithas fedru gweithredu'n esmwyth: rhaid derbyn y dylai rhai arwain tra bo eraill yn dilyn; y dylai rhai reoli tra bo eraill yn gweithio; neu y dylai rhai fynd allan i ennill cyflog tra bo eraill yn aros adref i fagu plant. Syniadau tebyg i hyn oedd y gyfrifol am y ffaith bod Ceidwadwyr cynnar, megis Edmund Burke, wedi dadlau o blaid y syniad o 'aristocratiaeth naturiol', sef y dybiaeth bod y gallu a'r doethineb i ysgwyddo swyddi arweinyddol o fewn cymdeithas yn rhinweddau cynhenid sy'n perthyn i rai dosbarthiadau uwch yn unig.

## **Awdurdod**

Tuedda Ceidwadwyr i ddehongli awdurdod fel rhywbeth sy'n cael ei osod arnom 'oddi fry', a hynny gyda'r bwriad o gynnig arweiniad a chefnogaeth i'r sawl sydd heb y wybodaeth neu'r profiad i fedru penderfynu drostynt eu hunain. O ganlyniad, yn y cartref dylid derbyn y bydd rhieni yn arddel awdurdod mewn perthynas â'u plant; yn yr ysgol bydd yr athro yn arddel awdurdod mewn perthynas â'r disgyblion; yn y gweithle bydd y rheolwr yn arddel awdurdod mewn perthynas â'i weithwyr; ac yn achos cymdeithas dylai llywodraeth arddel awdurdod mewn perthynas â dinasyddion unigol. Nid yw'r syniad o awdurdod sy'n deillio 'oddi fry' yn cael ei weld gan Ceidwadwyr fel rhywbeth drwg. Yn hytrach, credir ei fod yn cyfrannu at hybu sefydlogrwydd cymdeithasol, gan greu ymdeimlad ymhlith y boblogaeth o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt. Yn ogystal, mynnir bod awdurdod clir yn cyfrannu at hybu disgyblaeth.

## Eiddo

Cred Ceidwadwyr fod sawl rhinwedd yn perthyn i'n gallu i fod yn berchen ar eiddo neu asedau preifat. Mae meddu ar eiddo, megis tŷ a char, neu meddu ar gynilon sylweddol yn y banc yn rhoi sicrwydd i bobl gan eu bod felly yn meddu ar adnoddau y gellir dibynnu arnynt os ydynt yn digwydd wynebu amgylchiadau anodd (e.e. diweithdra neu salwch tymor tir). Dyma sydd wedi arwain at y duedd ymhlith Ceidwadwyr i fawrygu ymddygiad darbodus ac i roi bri ar y syniad o fuddsoddi mewn eiddo. Yn ogystal, dadleua Ceidwadwyr fod cymdeithas sy'n caniatáu perchnogaeth ar eiddo preifat yn un sy'n cymhell ei haelodau i barchu'r gyfraith ac ymddwyn mewn modd trefnus. Deillia hyn o'r gred y bydd y sawl sy'n berchen ar eiddo eu hunain yn debygol o barchu eiddo pobl eraill. Byddant hefyd yn hapus i gyfrannu at drefniadau sy'n atal trosedd a chynnal cyfraith a threfn gan y bydd hyn yn gwarchod eiddo pawb. Ar lefel ddyfnach a mwy personol, awgryma Ceidwadwyr fod perchnogaeth ar eiddo yn caniatáu i unigolion fynegi eu personoliaeth – mae'r ddadl hon yn seiliedig ar y dybiaeth bod ein heiddo (er enghraifft y dillad neu'r nwyddau tŷ a brynwn) bron yn estyniad ohonom ni ein hunain ac yn y gyfrwng sy'n caniatáu i ni gyfleu ein chwaeth a'n cymeriad i eraill.